Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Medi 2015 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :
Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Emyr Williams, Geraint R. Jones, Ifor Dylan Williams
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Chris Hughes, Rhys Pugh, Sioned Williams, Edd Huws, Gwyneth Thomas

2. DATGAN DIDDORDEBAU/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Gan mai cyfarfod anffurfiol di-gworwm oedd cyfarfod mis Gorffennaf, ni chafodd cofnodion mis Mehefin eu cadarnhau. Cadarnhawyd felly gofnodion Mehefin.

Cadarnhawyd hefyd gofnodion cyfarfod anffurfiol mis Gorffennaf, ac fe benderfynwyd awdurdodi'r gweithredoedd oedd yn deillio o'r cyfarfod hwnnw.

Cynnig:Ifor Dylan Williams
Eilio: Erddyn Davies

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Baw cŵn, tacluso meysydd parcio Lôn Groes, llinell wen, arwydd Rhes Libanus

Mae'r Giang Cymunedol Cyngor Gwynedd i alw heibio yn ystod wythnos 10 Medi er mwyn glanhau'r safleoedd parcio o fwsog, sbwriel a thorri'r drain.

Mae'r arwydd wedi cyrraedd depo Cyngor Gwynedd a bydd yn cael ei osod yn fuan.

4.2 Mainc Llanfaglan

Mae'r Clerc wedi gofyn i Wyn Williams baentio'r fainc, edrych ar sefyllfa'r chwyn, a selio'r tyllau ble mae sgriwiau yn y fainc er mwyn rhwystro pydredd.

Mae Wyn Williams wedi dechrau'r gwaith a bydd yn gorffen y gwaith cyn diwedd Medi.

4.3 Cyfethol a chynrychiolaeth ar Lywodraethwyr Ysgol Bontnewydd

Rhaid aros i'r Cynghorydd Rhys Pugh ymddiswyddo'n gyntaf, cyn medru rhoi'r gweithdrefnau cyfethol ar waith.

Gan fod y Cynghorydd Rhys Pugh wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Gorff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd, ond bellach wedi rhoi gorau i'r swyddogaeth yma, mae angen ystyried cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Y Bontnewydd ar Gorff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd ar gyfer y dyfodol.

4.4 Gwerthu Lleu a Phapurau Cymraeg yn Siop McColl's, Bontnewydd

Mae McColl's wedi cytuno i werthu'r Cymro a Golwg. Fodd bynnag, nid ydynt yn fodlon gwerthu Lleu. Ni does rheswm clir wedi cael ei roi dros hyn, ond mae'n debyg fod y cwmni'n ystyried bod gwerthiant unrhyw bapur y tu allan i'w system ddosbarthu arferol yn ormod o drafferth.

Y Clerc i ysgrifennu at bencadlys McColl's unwaith eto gan ofyn iddynt ail-ystyried. Bydd y Clerc hefyd yn ysgrifennu at Hywel Williams A.S. i ofyn am ei gefnogaeth.

4.5 Parcio Siop McColl's

Llywodraeth Cymru ac nid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am yr A487, ac felly mae'r mater wedi ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru am ymateb.

4.6 Cylchdro Glan Beuno

Parheir i ddisgwyl ymateb. Mae adroddiad wrthi'n cael ei baratoi at sylw Llywodraeth Cymru gan y peirianwyr.

4.7 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Parheir i ddisgwyl am ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cododd y Cynghorydd Dafydd Iwan bryder y byddai'r ffordd sy'n mynd ar hyn o bryd rhwng Rhos Bach i Gaeathro yn cael ei chau.

Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan ofyn iddynt ystyried darparu llwybr troed a marchogaeth aml bwrpas os ydy'r ffordd bresennol rhwng Rhos Bach a Chaeathro yn cael ei heffeithio.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerc Gorffennaf ac Awst 2015

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 x 2

Cyfanswm Gros £506.36
Cyfanswm Net £423.16

5.2 Costau postio £1.08

5.3 PWLB £406.35 14 Medi 2015

5.4 Adnewyddu Polisi Yswiriant 2015-16 £2,053.58

5.5 Praesept Cyngor Gwynedd Awst 2015 £7,250

5.6 Balans yn y banc 27 Awst £12,232.13 (yn cynnwys y praesept dderbyniwyd fis Awst)

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Cais cynllunio C15/0880/19/CR
Addasiadau mewnol i drosi cyn Gapel yn dŷ annedd, Capel Siloam, Bontnewydd, LL55 2UG

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

- Newyddlen Cynllun Datblygu ar y Cyd, Gwynedd a Môn
- Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau a Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr – ceisio Barn y Cyhoedd

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

8.1 Pont yr Aber, Caernarfon

Mynegodd y Cynghorydd Ifor Williams bryder y byddai mynediad i dref Caernarfon i'r rhai hynny sy'n byw ger Y Foryd neu yn Llanfaglan yn cael ei amharu'n ddybryd pe byddai Pont yr Aber yn cael ei chau.

Derbyniwyd mai ystyriaeth gychwynnol oedd yn cael ei roi i gau Pont yr Aber gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd, ond cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder.

8.2 Postyn Cloi Beic, Y Foryd

Awgrymodd y Cynghorydd Ifor Williams y byddai gosod lle i barcio beics ger Y Foryd yn beth buddiol. Awgrymwyd y maes parcio ger Eglwys Sant Baglan fel lleoliad cyfleus i'w osod.

Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gweld a fydden nhw yn fodlon ei osod.

8.3 Cod Ymddygiad i Aelodau – Sesiwn Hyfforddiant

Mae Cyngor Gwynedd yn trefnu sesiwn hyfforddiant nos Lun 5 Hydref 2015 yng Nghaernarfon ar y Cod ymddygiad. Bwriada'r Clerc fynychu.

8.4 Gwrthwynebiad Ceisiadau Cynllunio gan Gynghorau Cymuned

Mae Cyngor Gwynedd yn trin gwrthwynebiad i gais cynllunio gan Gyngor Cymuned fel un gwrthwynebiad yn unig. Mae angen tri gwrthwynebiad cyn bod cais yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio. Teimlwyd fod hyn yn annheg, o gofio fod Cynghorau Cymuned yn cynrychioli barn y gymuned leol.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn mynegi anfodlonrwydd at y drefn fel y mae'n bodoli.

8.5 Ymgynghori ar Gyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol, Cymru

Mae'r ymgynghoriad yma yn gofyn am farn ar y Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru . Gofynnir 7 cwestiwn, ac fe benderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o ddanfon ateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 9 Tachwedd 2015.

8.6 Tyfiant coed a Llysiau'r Cythraul, Lôn tu cefn i Dafarn y Newborough,

Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod Llysiau'r Cythraul yn tyfu ar lan yr afon ger y llwybr sy'n rhedeg y tu ôl i Dafarn y Newborough. Mae'r coed sydd ar lan yr afon yn gordyfu hefyd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gweld a fedrant ddatrys y broblem.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hydref 1 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd